# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC (3) 23-09)

**Dyddiad:** **14 Hydref 2009**
**Amser:** **9.30**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 4, Tŷ Hywel**

## CYNNWYS

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 14 Hydref 2009. Roedd yr Aelodau Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Janet Ryder AC, Alun Davies AC, William Graham AC, Mike German AC. Cafwyd ymddiheuriadau gan Joyce Watson AC. Nid oedd unrhyw ddirprwyon.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

**Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2**

**Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

**SLC336 - Gorchymyn Coleg Garddwriaeth Cymru (Diddymu) (Diwygio) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 29 Medi 2009. Fe'i gosodwyd ar 1 Hydref 2009. Yn dod i rym ar 23 Hydref 2009

**SLC338 - Gorchymyn y Dreth Gyngor ac Ardrethu Annomestig (Cyfathrebiadau Electronig) (Cymru) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 1 Hydref 2009. Fe'i gosodwyd ar 6 Hydref 2009. Yn dod i rym ar 31 Hydref 2009

**Offerynnau drafft sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn gadarnhaol)**

**SLC334 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) (Diwygio) 2009**
Y weithdrefn gadarnhaol. Dyddiad y'u gwnaed heb ei nodi. Yn dod i rym ar 2 Rhagfyr 2009

**Materion eraill**

**Eithriadau cyffredinol**

Bu'r Pwyllgor yn trafod eithriadau cyffredinol ac eithriadau penodol o dan Reol Sefydlog 15.6(v) 'unrhyw fater deddfwriaethol gyffredinol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru'. Rhoddodd Prif Gynghorydd Cyfreithiol y Cynulliad dystiolaeth i'r

Pwyllgor. Bu'r Aelodau yn ystyried papur y Prif Gynghorydd Cyfreithiol ac yn edrych ar y rhesymau dros y newidiadau i Atodlen 5. Penderfynodd y Pwyllgor y byddai'n edrych ymhellach ar eithriadau cyffredinol.

**Adolygu'r Mesurau Seneddol (a Mesurau Seneddol drafft) ar gyfer gwaith craffu posibl o dan Reol Sefydlog 15.6(ii)**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Mesurau Seneddol a'r Mesurau Seneddol drafft sydd gerbron Senedd San Steffan ac a fyddai'n addas i'r Pwyllgor eu hystyried mewn perthynas â dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n edrych yn y dyfodol ar y Mesur Seneddol drafft ynghylch Rheoli Llifogydd a Dŵr, ac y byddai'n ystyried goblygiadau Mesurau Seneddol eraill pan fyddai hynny'n briodol.

**Eitem 6 ar yr agenda – Ystyried adroddiad drafft y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) ac ystyried papur y cynghorwyr cyfreithiol ar yr adolygiad o offerynnau statudol**

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi), penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod er mwyn trafod y dystiolaeth a'r argymhellion ar gyfer adroddiad drafft y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol.

**Janet Ryder AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**14 Hydref 2009**